

# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

## Answers to Questions not reached in Plenary

### 14/11/2006

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Questions to the First Minister

#### Gwella Trafnidiaeth Gyhoeddus Integredig

#### Improving Integrated Public Transport

**C12 Owen John Thomas:** Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella trafnidiaeth gyhoeddus integredig? OAQ2048(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** We have put in place the Transport (Wales) Act 2006 and are developing our Wales transport strategy. Also, we have responsibility for all Arriva Trains Wales services in Wales. These provide a comprehensive and coherent framework to deliver an effective and cohesive integrated public transport system for Wales.

**Q12 Owen John Thomas:** What action is the Welsh Assembly Government taking to improve integrated public transport? OAQ2048(FM)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Yr ydym wedi rhoi Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 ar waith ac yr ydym yn datblygu ein strategaeth drafnidiaeth i Gymru. Hefyd, mae gennym gyfrifoldeb am holl wasanaethau Trenau Arriva Cymru yng Nghymru. Mae'r rhain yn darparu fframwaith gynhwysfawr a chydlynol i ddarparu system drafnidiaeth gyhoeddus integredig effeithiol a chydlynus i Gymru.

#### Datblygiad Economaidd

#### Economic Development

**Q13 Janet Davies:** Will the First Minister make a statement on the effectiveness of Welsh Assembly Government policies for economic development? OAQ2015(FM)

**The First Minister:** The total number of jobs in Wales is up by 131,000 since the start of the Assembly, which constitutes a rise of 11 per cent since mid-1999, compared with a 7 per cent increase for the UK as a whole over the same period.

**C13 Janet Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiolrwydd polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu economaidd? OAQ2015(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae cyfanswm y swyddi yng Nghymru wedi cynyddu 131,000 ers dechrau'r Cynulliad, sy'n cynnwys cynnydd o 11 y cant ers canol 1999, o'i gymharu â chynnydd o 7 y cant ar gyfer y DU yn ei gyfanrwydd yn ystod yr un cyfnod.

#### Cynllun Ffordd Angel Way

#### The Angel Way Road Scheme

**Q14 Jeff Cuthbert:** What discussions has the First Minister had with the Minister for Enterprise, Innovation and Networks on the Angel Way road scheme in Bargoed?

**C14 Jeff Cuthbert:** Pa drafodaethau mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ynghylch cynllun ffordd

OAQ2035(FM)

Angel Way ym Margod? OAQ2035(FM)

**The First Minister:** I am pleased to announce that this relief road, which is the major element of an integrated package of measures that combine to form the greater Bargoed community regeneration scheme, is being supported by the Welsh Assembly Government with transport grant funding at a total cost of around £32 million.

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn falch o gyhoeddi bod y ffordd liniaru hon, sef prif elfen pecyn integredig o fesurau sy'n cyfuno i ffurfio cynllun adfywio cymunedol Bargod fawr, yn cael cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda chyllid grant trafnidiaeth am gyfanswm cost o tua £32 miliwn.

#### **Dyledion Ymddiriedolaethau GIG NHS Trust Debts**

**C15 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyledion a wynebir gan ymddiriedolaethau gwasanaeth iechyd gwladol? OAQ2016(FM)

**Q15 Alun Ffred Jones:** Will the First Minister make a statement on debts faced by national health service trusts?  
OAQ2016(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cyfanswm dyledion y GIG ar 31 Mawrth 2006 oedd £101 miliwn. Mae £16.6 miliwn yn debygol o gael ei ddiddymu, sy'n golygu bod cyfanswm o £84 miliwn ar ôl i'w ad-dalu.

**The First Minister:** The total NHS debt at 31 March 2006 was £101 million, of which £16.6 million is likely to be written off, giving a total to be repaid of £84 million.